Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF

☎ 01766 832 398 ✉ dirprwyglerc@cyngortrefffestiniog.cymru

# Rhaglen

## Pwyllgor Mwynderau

**17/03/2025 • 19:00 •**

**Siambr y Cyngor ac Ar-lein**

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

https://us02web.zoom.us/j/84126601456?pwd=z33g7j9t1ltcJEtwiKxy9gIrXm6CkN.1
Meeting ID: 841 2660 1456
Passcode: 580928

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 17eg o Fawrth AM 7.00 YR HWYR**
**AT GADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3 .** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **4.** | | **Caeau Chwarae**<br>Arolwg misol mis Chwefror 2025 - Derbyn crynodeb o archwiliadau misol o'r caeau chwarae. |
| **5.** | | **Llwybrau Cerdded**<br>- Nid oes adroddiad i fis Chwefror-Mawrth oherwydd salwch swyddog cerdded. |

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | | **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw.**<br><br>Derbyn adroddiad llafar gan y clerc/dirprwy ar noson y cyfarfod. |
| **7.** | | **Adolygu ac Ystyried Ceisiadau Tendr Garddio**<br>Mae copi o'r tri cais a dderbyniwyd hyd yma ynghlwm. Mae'r dyddiad cau ddydd Gwener 19eg, ac felly mae posibilrwydd o dderbyn cais arall. Os felly, byddant ar gael i'w hystyried ar y noson. |
| **8.** | | **Pennu Oriau Agor a Chau Pendant ar gyfer y Parc**<br>• Cytuno ar amseroedd agor a chau penodol ar gyfer y parc, gan gynnwys y dyddiadau perthnasol drwy gydol y flwyddyn. |
| **9.** | | **Hysbysiad o Ddyfynbris a Dderbyniwyd ar gyfer Gwaith Coed ym Mharc Tanygrisiau a Phenderfynu ar Ddefnydd y Pren Sy'n Weddill** |
| **10.** | | **Cais am gyfraniad tuag at wagio bin baw cwn**<br><br>• Ystyried cynnig y Cyngor Sir i osod bin gwastraff cŵn ar ffordd Dinas (Rhiwbryfdir), gyda'r Cyngor Tref yn cyfrannu £3-4 bob tro y caiff ei wagio, disgwylir i hyn ddigwydd tua unwaith y wythnos. |
| **11.** | | **Adolygiad Terfynol a Chymeradwyo'r Contract ar gyfer y Contractwr MUGA**<br>• Cynnal adolygiad terfynol o'r contract ar gyfer y contractwr MUGA a'i gymeradwyo. Oherwydd diffyg amser, ni fydd cyfle i wneud newidiadau pellach ar ôl y cyfarfod hwn, felly hwn fydd y cam olaf cyn ei gwblhau. |
| **12.** | | **Diweddariad ar waith y Dirprwy Glerc** |

Ellen Pugh
Dirprwy Clerc y Dref
DYDDIAD: 12/03/2025

